Y Gerdd Werdd gan Gwynedd Glyn
Cerddi'n Cerdded-Gwasg Gomer

Sgen ti botel?Sgen ti babur?
Sgen ti ganiau/Sgen ti dun?
Sgen ti amser i ail feddwl
cyn eu taflu nhw i'r bin?

Casgla rhain fel trugareddau
adeilada bentwr mawr,
yna tro nhw'n drysor newydd
fel mae'r machlud yn troi'n wawr

Bwyda di y blwch ail-gylchu
llanwa di y crochan hud.
Gwylia hen bapurau ddoe
yn troi'n gylchgrawn newydd drud

Tro dy dun yn degan digri,
tro focs sgwâr yn botel gron,
Tro hen eiriau rhwng dy ddwylo
i wneud cerdd newydd sbon.